

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Argyfyngau Sifil yng Nghymru

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597 / 8032

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Argyfyngau Sifil yng Nghymru

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

Pwerau

Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn www.cynulliadcymru.org). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Mae gan y Pwyllgor bwerau statudol penodol hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Darren Millar (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Mohammad Asghar (Oscar)

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Jocelyn Davies

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Sandy Mewies

Llafur Cymru
Delyn



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Jenny Rathbone

Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Gwyn R Price

Llafur Cymru
Islwyn

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Rhagair y Cadeirydd.....	7
Cyflwyniad	9
Cefndir	9
1. Rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran cydgysylltu ymatebion i argyfyngau sifil.....	11
Cefndir	11
Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004	11
Gwahanol swyddogaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU	13
Rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith	19
2. Cynllunio at Argyfwng.....	22
Ariannu ar gyfer argyfyngau sifil a chynllunio ar gyfer argyfyngau .	22
Datganoli cyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer argyfyngau i'r rhanbarthau	24
Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet.....	27
Hyfforddi staff cydnerthu.....	28
Defnyddio technoleg i gefnogi dulliau rhannu gwybodaeth.....	30
3. Rôl y sector gwirfoddol ac ymgysylltiad y gymuned ehangach	33
Cymryd rhan mewn cynllunio at argyfwng ac ymateb i argyfyngau .	33
Trefniadau ariannu ar gyfer y sector gwirfoddol	35
Ymgysylltu â'r Gymuned yn ehangach	35
Tystion	37
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	38

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a chasgliadau ategol:

Argymhelliad 1: Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio gwella ei dyletswyddau statudol o ran cydgysylltu a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil. Rydym yn argymhell bod yn rhaid i unrhyw bwerau gweithredol newydd i Weinidogion Cymru gynnwys dyletswydd statudol i fonitro perfformiad ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau. (Tudalen 18)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd yn benodol yn y dyfodol i ddatganoli rhagor o bwerau deddfu i Gymru. (Tudalen 19)

Argymhelliad 3. Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio 'trosglwyddo'r adnoddau gofynnol' cyn ceisio trosglwyddo swyddogaethau ychwanegol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 o Lywodraeth y DU. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r adnoddau hynny sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau o'r fath cyn i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo. (Tudalen 19)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn sicrhau bod holl ymatebwyr Categori Un yn gyson yn y modd y maent yn rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith a bod eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i graffu arno'n rheolaidd. (Tudalen 21)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllidebau cynllunio at argyfyngau sifil yn unol â risgiau cysylltiedig. (Tudalen 23)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell y dylai symud at bedwar model rhanbarthol gwahanol ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gymuned gydnerth oresgyn nifer o heriau, yn cynnwys rhwystrau diwylliannol. (Tudalen 26)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau pa mor

bwysig yw hunan-asesu cywir, yn enwedig pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau Set Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet. (Tudalen 30)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod cyngor ar sut i ddefnyddio'r Set Disgwyliadau yn effeithiol yn elfen allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i swyddogion cydnerthu yn y dyfodol a bod y defnydd ohono'n cael ei brofi'n rheolaidd fel rhan o ymarferion ar gyfer argyfyngau sifil. (Tudalen 30)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu cyfres o gymwyseddau ar gyfer swyddogion cydnerthu. Dylid rhoi'r cymwyseddau hyn ar waith yn gyson ledled Cymru. (Tudalen 30)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â'r gymuned cydnerthu leol i gasglu'r arfer gorau o ran rheoli'n effeithiol oblygiadau rhwydweithiau cymdeithasol yn ystod digwyddiadau brys a sicrhau ei fod yn cael ei rannu ymhlith y fforymau lleol Cymru Gydnerth. (Tudalen 32)

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cynrychiolaeth cyrff y sector gwirfoddol ar Fforwm Cymru Gydnerth. Hefyd dylai'r rheini sy'n cynrychioli cyrff gwirfoddol allu hawlio treuliau mewn perthynas â'r ffaith eu bod yn cymryd rhan yn y fforwm. (Tudalen 34)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw rwystrau i atal aelodau o gyrff y sector gwirfoddol rhag cadeirio cyfarfodydd gweithgorau cynllunio at argyfwng. (Tudalen 34)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu memorandwm dealltwriaeth rhwng fforymau lleol Cymru Gydnerth a'r sector gwirfoddol o ran ymateb i argyfyngau sifil. (Tudalen 34)

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynghori ymatebwyr Categori Un i sicrhau bod unrhyw gostau rhesymol a ysgwyddir gan gyrff y sector gwirfoddol yn ystod ymarferion hyfforddi yn cael eu had-dalu. (Tudalen 35)

Rhagair y Cadeirydd

Mae digwyddiadau diweddar fel y llifogydd yn Llanelwy a Rhuthun, y digwyddiad yng Nglofa'r Gleision, y tân mewn depo teiars yn Abertawe a nifer o sefyllfaoedd argyfyngus a achoswyd gan dywydd anffafriol wedi dangos i ni cymaint yr ydym yn dibynnu ar ymateb ein gwasanaethau brys.

Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd yn sgil y llifogydd yn Sir Ddinbych ar ddiwedd 2012, yn rhoi cydnabyddiaeth deilwng i ymatebwyr argyfyngau sifil am reoli argyfyngau mawr diweddar yn effeithiol. Ond mae'n nodi'n glir hefyd y bydd angen i ymatebwyr wella'u perfformiad a sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol yn y dyfodol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu.

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu yn yr ymchwiliad byr hwn, ynghyd â chanfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn nodi'n glir bod ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r ffordd y mae'r gymuned sy'n ymateb i argyfyngau yn cynllunio at argyfyngau sifil ac yn eu rheoli. Ond fe wnaethom hefyd ddod o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen gwella rhai agweddau ar gynllunio at argyfwng a'u cydgysylltu ar bob lefel. Hefyd bydd cynigion i symud tuag at sail fwy rhanbarthol yn golygu cryn newid i'r holl sefydliadau sydd ynghlwm â chynllunio at argyfwng.

Yn ystod ein hymchwiliad clywsom enghreifftiau o arfer da lle'r oedd arweinyddiaeth uwch swyddogion awdurdodau lleol wedi chwarae rhan hanfodol yn y modd y cafodd sefyllfaoedd brys eu trin yn effeithiol. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o sefyllfaoedd brys, fel pwysigrwydd cael un person i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am arwain yr ymateb i argyfwng. Rydym yn gobeithio bod yr adroddiad hwn yn rhoi cydnabyddiaeth i'r ymdrechion diflino y mae'r gymuned sy'n ymateb i argyfyngau yn eu gwneud i sicrhau diogelwch pobl Cymru. Fodd bynnag, gobeithio eu bod yn ystyried casgliadau ein hadroddiad yn argymhellion gwerthfawr gan gyfaill beirniadol.

Yn ystod y cyfnod ariannol llym hwn, mae llawer o heriau'n wynebu ymatebwyr argyfyngau sifil. Mae'n bleser gennym nodi bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn

gweithredu'n briodol drwy adolygu'r ffordd y mae cynllunio at argyfwng yn cael ei ddarparu ar lefel awdurdodau lleol.

Rydym yn gobeithio bod yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i'r holl asiantaethau cyhoeddus sy'n ymateb i argyfyngau sifil wella effeithlonrwydd, cysondeb a chadernid y trefniadau angenrheidiol a ddylai fod ar waith.

Cyflwyniad

Cefndir

1. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru ar 6 Rhagfyr 2012.¹
2. Canfu'r adroddiad fod trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil wedi gweithio'n foddhaol yng Nghymru² hyd yma, pan fu galw amdanynt. Mae hefyd yn manylu bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymateb effeithiol a medrus iawn gan y bartneriaeth o sefydliadau sy'n ymateb i wasanaethau mawr.³
3. Fodd bynnag, canfu astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol hefyd:

“cryn gwmpas o fewn y trefniadau hyn am well eglurder, cysondeb ac ansawdd. O ystyried y canfyddiadau hyn, nid ydym yn hyderus bod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi sefydlu fframwaith digon cryf, effeithlon ac effeithiol i wella cydnherthedd ac ymateb i argyfyngau.”⁴
4. Roedd ein hymchwiliad yn seiliedig ar faterion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a chawsom sesiwn friffio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 15 Ionawr 2013.
5. Clywsom dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU (Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd, y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys, a St John Cymru yn ein cyfarfod ar 18 Chwefror 2013. Roeddem yn credu y byddai'r amrywiaeth hon o dystion yn ein galluogi i gael safbwyntiau ar:
 - rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran cefnogi sefydliadau sydd ynghlwm â rheoli argyfyngau sifil;
 - golwg gyffredinol ar yr heriau ariannol sy'n wynebu sefydliadau o ran rheoli argyfyngau sifil;

¹ Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012

² Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 39

³ Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 1.3

⁴ Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 39

- a'r heriau arbennig sy'n wynebu pob sefydliad o ran datblygu cynlluniau argyfwng a'u rhoi ar waith.

1. Rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran cydgysylltu ymatebion i argyfyngau sifil

Cefndir

Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

6. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi dod i rym yng Nghymru a Lloegr yn 2005, gan gymryd lle'n llwyr Ddeddf Amddiffyn Sifil 1948 a deddfwriaeth arall a oedd yn gysylltiedig â hi. Nod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yw gwella parodrwydd ar gyfer unrhyw ddigwyddiad neu argyfwng difrifol sy'n tarfu, a gwella'r ymateb iddo. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn diffinio argyfwng fel:

- a) digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig;
- b) digwyddiad neu sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i amgylchedd lle yn y Deyrnas Unedig; neu
- c) rhyfel, neu derfysgaeth, sy'n bygwth tanseilio diogelwch yn y Deyrnas Unedig yn ddifrifol.⁵

7. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio bod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn nodi mai cyfres ddiffiniedig o sefydliadau rheng flaen a elwir yn 'ymatebwyr' sy'n atebol dros argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn rhestru'r sefydliadau hyn a'u dyletswyddau, sy'n ymestyn y tu hwnt i gynllunio ar gyfer argyfyngau i gynnwys dyletswyddau llawer ehangach yn ymwneud â sicrhau 'cadernid'.⁶

8. Nodwyd fod rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr gydweithio â'i gilydd mewn fforymau lleol Cymru Gydnerth. Mae pedwar fforwm lleol Cymru Gydnerth ar sail ardaloedd heddlu Cymru. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Fforwm Cymru Gydnerth yn gorff anstatudol sy'n rhoi canolbwynt i brif swyddogion ymatebwyr Categori Un drafod materion strategol o barodrwydd ar gyfer argyfyngau gyda Gweinidogion Cymru. Mae Swyddfa'r Cabinet yn aelod o'r Fforwm

⁵ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru, 6 Rhagfyr 2012, Crynodeb, Para 3

⁶ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru, 6 Rhagfyr 2012, Crynodeb, Para 4

Cymru Gydnerth ac mae ganddi rôl i sicrhau bod polisi a gweithrediad argyfyngau sifil yng Nghymru yn cael eu datblygu, eu cydgysylltu a'u rhoi ar waith yn effeithiol.⁷

9. *Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004* wedi'i rhannu'n ddwy ran:

- mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar sefydlu fframwaith statudol o swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer ymatebwyr lleol, gan adeiladau cadernid i baratoi cymunedau a threfniadau lleol ar gyfer amddiffyn sifil;
- mae rhan 2 yn canolbwyntio ar y darpariaethau sydd ar gael i'w defnyddio mewn amgylchiadau eithafol ac argyfyngau cenedlaethol.

10. Gan fod rhan 2 o'r Ddeddf y tu hwnt i gylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru, roedd cwrdd ei archwiliad (ac felly ein hymchwiliad ni) yn ymdrin â rhan 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.⁸

11. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU yn nodi:

"As part of the Civil Contingencies Act a Concordat has been agreed which establishes a framework for co-operation between the UK Government and the Welsh Government on issues pertaining to Part 2 (Emergency Powers) of the Act. The concordat sits alongside the Regulations and Guidance supporting Part 1 of the Act."⁹

12. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru:

"[...] are permanent members of the UK Capabilities Programme Board and the officials level of the National Security Council sub-committee on resilience. There are regular meetings

⁷ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru, Rhagfyr 2012, Crynodeb, Para 7

⁸ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru, Rhagfyr 2012, Crynodeb, Para 11

⁹ PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru - Tudalen 1

between Welsh Government, Cabinet Office and the other devolved administrations."¹⁰

13. Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn diffinio dau gategori o sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau:

- a) Mae ymatebwyr Categori Un yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, awdurdodau lleol, y sector iechyd ac asiantaethau eraill fel Asiantaeth yr Amgylchedd.¹¹ Mae'r sefydliadau critigol hyn yn rheoli argyfyngau, yn gwneud penderfyniadau ac yn cymryd camau angenrheidiol ar adeg digwyddiad ac yn ystod y broses adfer ar ôl y digwyddiad.
- b) Mae ymatebwyr Categori Dau yn cynnwys y cwmnïau cyfleustodau, rheilffyrdd, telegyfathrebu a sefydliadau eraill sydd ynghlwm â chynnal parhad systemau, gwasanaethau a chysylltiadau.

Gwahanol swyddogaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

14. Mae gan Weinidogion y DU:

"[...] a range of powers under Part1 of the Act. Most of these powers relate to the issuing of guidance and Regulations to support the delivery of the main duties under the Act."¹²

15. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU yn nodi:

"Although civil contingencies is not devolved there is a public expectation in Wales that Welsh Ministers will provide political leadership in building resilience and responding to emergencies."¹³

16. Dywedwyd wrthym nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am drosglwyddo swyddogaethau gweithredol pan oedd y Bil Argyfyngau Sifil Posibl yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru:

¹⁰ PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru – Tudalen 2

¹¹ Cymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru le Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar 1 Ebrill 2013

¹² PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru – Tudalen 3

¹³ PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru – Tudalen 2

“[...] the Act changed the arrangements for civil contingencies across the UK as a whole, replacing some very old legislation and, therefore, bringing into being a new form of co-ordination for a local response, with the emphasis on that. What has been evident is that there has been a role for us to play in Wales in bringing that together on a Wales scale, which perhaps was not envisaged ahead of the Act.”¹⁴

17. Yn ychwanegol at hyn, nododd Christina Scott o Swyddfa'r Cabinet:

“What the Act [Civil Contingencies Act 2004] did, for the first time, was to put a set of duties on local responders, and very much running through its core is the principle of subsidiarity and saying that decisions really should be taken at the lowest appropriate level, but for allowing for coordination at a higher level where necessary.”¹⁵

18. Nodwyd gennym y byddai trosglwyddo swyddogaethau cyfrifoldebau Rhan 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mewn difrif, yn rhoi'r un cyfrifoldebau i Weinidogion Cymru ag i Weinidogion yr Alban. Nodwyd gennym fod y Ddeddf yn rhoi rhai pwerau i Weinidogion yn yr Alban fynnu gwybodaeth gan fforymau lleol Cymru gydnerth neu ymatebwyr lleol am eu dulliau cynllunio a byddai rhai o'r pwerau hynny'n cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd eithafol yn unig. Nododd Llywodraeth Cymru:

“Transferring those functions would probably add some of the clarity to which the Wales [Audit] Office draws attention as currently lacking under the current arrangements.”¹⁶

19. Gan nad oes gan Gymru bwerau datganoledig ar gyfer argyfyngau sifil posibl, nid yw Llywodraeth Cymru'n atebol dros roi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith na'i gorfodi. Drwy goncordat, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Llywodraeth y DU ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol o dan Ran 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 o ran cynllunio ac ymateb i amgylchiadau eithafol ac argyfyngau cenedlaethol. Fodd bynnag, yn ymarferol mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros lawer

¹⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 35

¹⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 52

¹⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 61

o'r sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau. Yn ychwanegol at hynny, mae canllawiau¹⁷ Swyddfa'r Cabinet ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn cydnabod rôl de facto i Lywodraeth Cymru, drwy ei dîm cydnerth, sy'n cynnwys:

- a) Cefnogi gweithgareddau fforymau lleol Cymru gydnerth;
- b) Arwain o ran cydgysylltu ar lefel Cymru gyfan;
- c) Gweithredu fel cyswllt rhwng fforymau lleol Cymru gydnerth;
a
- d) Cysylltu â Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill o Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

20. Er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i ymatebwyr Categori Un, nid yw'n gyfrifol am eu rheoli na'u monitro. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod gan hyn oblygiadau i'w chyfrifoldebau am arweinyddiaeth a chydgyssylltu, nad ydynt bob amser yn glir.

21. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad, fod Llywodraeth y DU yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ei chynorthwyo i gydgyssylltu'r ddarpariaeth ar gyfer argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Fodd bynnag, daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad:

"[...] bod diffyg eglurder yn y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch rolau a disgwyliadau arwain a chydgyssylltu.

"[...] Mae Llywodraeth Cymru hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n awgrymu nad yw'r ffaith nad oes pwerau datganoledig ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn rhwystr, er ei fod yn golygu bod trefniadau yn fwy cymhleth."¹⁸

22. Canfu ymchwiliad yr Archwilydd Cyffredinol mai canlyniad arall y diffyg eglurder hwn yw y bydd y gwahanol sefydliadau sydd ynghlwm â rheoli argyfyngau sifil yn chwilio am arweinyddiaeth, cyngor a chanllawiau gan amrywiaeth o gyrff y llywodraeth. Nododd yr adroddiad y gallai hyn gyflwyno cymhlethdod, yn enwedig yn ystod

¹⁷ Parodrwydd ar gyfer Argyfyngau - Canllawiau ar Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Swyddfa'r Cabinet, 2012

¹⁸ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 14

dwyster digwyddiad argyfyngus¹⁹ a bod partneriaid Llywodraeth Cymru yn dehongli'r rôl o arwain a chydgyssylltu y mae wedi'i ddatblygu'n wahanol Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at ddiffyg eglurder ynghylch cylch gwaith Llywodraeth Cymru.²⁰

23. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn pwysleisio:

"Mae disgwyliad rhesymol ymhlith y sector cyhoeddus a dinasyddion mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain yn ystod argyfyngau mawr sy'n effeithio ar Gymru."²¹

24. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw ddryswch wedi cael ei achosi gan swyddogaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran ymateb i argyfyngau, clywsom gan dystion o blith ymatebwyr Categori Un eu bod yn gwerthfawrogi'r arweinyddiaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd unrhyw ddryswch.

25. Pan ofynnwyd am rôl Llywodraeth Cymru, nododd y Swyddog Polisi Gwasanaethau Rheoliadol o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"We would go through them (the Welsh Government) to the Cabinet Office if we needed to do so."²²

26. Ychwanegodd Cydgysylltydd Lleol Cymru Gydnerth, Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd:

"[...] in North Wales, we have the Welsh Government liaison officers based in the Llandudno Junction Office and that is replicated in Aberystwyth as well. That is yet another link into the Welsh Government for us. We would not go directly to the Cabinet Office; we would go through Wyn and Alyson's team (Emergency and Community Safety, Welsh Government)."²³

27. Fel Cadeirydd grŵp dysgu a datblygu Cymru a'r grŵp gwacáu mewn argyfwng torfol, roedd yr Uwcharolygydd Claire Parmenter o'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan dystion eraill ac ychwanegodd:

¹⁹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 1.14

²⁰ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 13

²¹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 1.7

²² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 242

²³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 244

“Through the mass evacuation group for example, we had strong links – through Wyn (Emergency and Community Safety, Welsh Government) and the Wales Resilience Team – with the English structure to ensure that anything that we were doing was aligned and was fit for purpose for Wales, but also took cognisance of what was happening on a UK level, so that we could learn lessons from that.”²⁴

28. O ran cymhwysedd Llywodraeth Cymru i fonitro perfformiad ymatebwyr Categori Un wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau, roedd ei thystiolaeth ysgrifenedig yn nodi:

“The Civil Contingencies Act 2004 assigns UK Ministers and Ministers in Scotland and Northern Ireland power to monitor performance of the civil protection duties. Welsh Ministers do not have these powers and therefore have no direct role in monitoring performance or enforcing proceedings for non-compliance.”²⁵

29. Fodd bynnag, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor na fyddai angen rhagor o gymhwysedd gweithredol yn y maes hwn, er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor gwerthfawr iddynt hwy ac i'r fforymau lleol Cymru Gydnerth. Roeddent yn dadlau y gallai pwerau ychwanegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag argyfyngau sifil fod yn anodd ac yn feichus ac y byddai gan hyn oblygiadau ar adnoddau a byddai'n cynyddu'r galw ar weinyddiaeth.²⁶ Clywsom fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o broses i gysylltu â holl randdeiliaid perthnasol. Nododd y Swyddog Cynllunio at Argyfwng o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod Llywodraeth Cymru yn:

“[...] conduits for all of those things that move. Local government could not do that on its own; it needs the civil servants to be our interpreters.”²⁷

30. Fodd bynnag, yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd ar Dîm Partneriaeth Cymru Gydnerth, taerodd yr Uwcharolygydd Claire

²⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 245

²⁵ Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, 18 Chwefror 2013

²⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 247-Para 255

²⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 262

Parmenter y gallai cymhwysedd gweithredol ychwanegol i Lywodraeth Cymru ychwanegu eglurder at nifer o faterion, yn enwedig ariannu. Rhoddodd enghraifft o'r costau sy'n gysylltiedig â marwdai argyfwng a nododd:

“[...] there has been a little bit of confusion as to who would fund issues... There seemed to be a bit of blurring around who would fit the bill for something like that and that I think that it would probably increase clarity if there was a bit more detail around that.”²⁸

31. Roeddem yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol glir i greu cadernid yn ystod sefyllfaoedd argyfyngus. Fe wnaethom nodi'n arbennig y gefnogaeth ddiweddar a ddarparwyd i'r gwasanaethau brys yn ystod y digwyddiad yng Nglofa'r Gleision yn 2011. Fodd bynnag, rydym yn cydweld â chanfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod angen llinell glir o atebolrwydd a chyfrifoldeb ac efallai nad yw rôl rhannol oddefol/rhannol weithredol bresennol Llywodraeth Cymru o ran cydgysylltu a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil yn addas yn y tymor hir.

32. Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad hwn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) mewn perthynas â Rhan 2 o'i gylch gwaith yn ymdrin â phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn gwneud cynigion ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol ac mae'n gwneud cais y dylid cadw pwerau gweithredol presennol Gweinidogion Cymru ac y dylid ymestyn pwerau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys trosglwyddo pwerau o Lywodraeth y DU ar gyfer argyfyngau sifil.²⁹

Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio gwella ei dyletswyddau statudol o ran cydgysylltu a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil. Rydym yn argymhell bod yn rhaid i unrhyw bwerau gweithredol newydd i Weinidogion Cymru gynnwys dyletswydd statudol i fonitro perfformiad ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau.

²⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 254

²⁹ Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru - Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, 18 Chwefror 2013

33. Credwn fod Llywodraeth Cymru wedi methu cyfle drwy beidio â gofyn am drosglwyddo swyddogaethau pwerau a chyfrifoldebau o dan Ran 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Yn unol ag ymrwymïadau yn ei Raglen Lywodraethu, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn weithgar iawn o ran mynd ar drywydd pwerau ychwanegol i Gymru.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd yn benodol yn y dyfodol i ddatganoli rhagor o bwerau deddfu i Gymru.

34. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru hefyd yn nodi:

“Rydym yn credu y byddai trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogol y Rhan 1 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gyda'r adnoddau gofynnol yn cael eu trosglwyddo, yn cydnabod rôl Gweinidogion Cymru ac yn gwneud atebolrwydd yn fwy eglur.”³⁰

35. O ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd rôl a chyfrifoldeb de facto am ymateb i argyfyngau sifil, ynghyd â disgwyliad y sector cyhoeddus bod Llywodraeth Cymru'n rhoi arweinyddiaeth glir pan fydd angen, byddem yn croesawu eglurhad o'r hyn y mae'n ei weld fel 'yr adnoddau gofynnol' ar gyfer perfformio'r rôl hon yn effeithiol.

Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio 'trosglwyddo'r adnoddau gofynnol' cyn ceisio trosglwyddo swyddogaethau ychwanegol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 o Lywodraeth y DU. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r adnoddau hynny sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau o'r fath cyn i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo.

Rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith

36. Mae Rhan 3 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dod i'r casgliad bod y dulliau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr Categori Un i roi

³⁰ Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, 18 Chwefror 2013 (Tudalen 23)

Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith yn anghyson ac nad yw ymatebwyr yn monitro'u gweithgareddau'n effeithiol.³¹

37. Rydym yn bryderus ynghylch y canfyddiadau a amlygwyd yn rhan 3 yr adroddiad mewn perthynas ag agweddau anghyson tuag at asesu risg; ansawdd cynlluniau a gweithdrefnau argyfwng; y cam adfer argyfyngau sydd heb ei brofi; a rheoli perfformiad gweithgarwch gwydnwch o fewn sefydliadau unigol.

38. Pan holwyd pam nad oedd yr anghysonderau a'r gwendidau yn y dulliau cynllunio ar gyfer argyfwng a ddisgrifiwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi eu canfod gan y fforymau cydnerthu niferus, cytunodd Llywodraeth Cymru y gallai'r nifer o wahanol fforymau arwain at ddryswch. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Lywodraeth Leol a Chymunedau fod gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r amrywiol drefniadau:

"An example it might be worth alluding to is work that was done recently with local resilience fora, in which they have undertaken peer reviews of each other's plans. [...]

"There is always a need to strengthen what is there, and I think that local responders would say the same – that there is always a need to refresh plans, and to stay on top of them."³²

39. Nododd Christina Scott o Swyddfa'r Cabinet fod proses o aeddfedu dulliau cynllunio ar gyfer argyfyngau wedi mynd rhagddi ers rhoi'r Ddeddf ar waith. Dywedwyd wrthym fod y Ddeddf yn rhoi cyfres o ddyletswyddau ar ymatebwyr lleol, ac yn greiddiol iddi mae'r egwyddor o sybsidiaredd gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel briodol isaf, ond yn caniatáu ar gyfer cydgysylltu ar lefel uwch pan fydd angen. Nododd:

"We had very old legislation in place prior to that (the Civil Contingencies Act 2004) and we learned the hard way during the foot-and-mouth disease crisis and the fuel dispute back in

³¹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 3.1 hyd at 3.7

³² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 46 a 48

the early 2000s that planning was not being done systematically, nor was it being done on a multi-agency basis.”³³

40. Roeddem yn pryderu am ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad oes unrhyw eglurder o ran sut mae'r dull o roi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith yn cael ei fonitro. Credwn fod angen eglurder o ran swyddogaethau penodol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bod angen gwella'r ffordd o fonitro a chraffu ar y modd y caiff y Ddeddf ei rhoi ar waith ar bob lefel.

41. Rydym yn cefnogi argymhelliad 1 a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd yn nodi:

“[...] dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Swyddfa'r Cabinet i gytuno ar sut i atgyfnerthu'r gwaith strategol o oruchwyllo'r broses o gyflawni deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl yng Nghymru. Dylai hyn gwmpasu:

- asesu'r gwaith o gynllunio cydnerthedd dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gyda'r amcan o sicrhau gwell effeithlonrwydd, cysondeb ac ansawdd;
- monitro safonau cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer swyddogion cynllunio at argyfwng;
- tawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd yng Nghymru o ran gwaith paratoi effeithiol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, ynghyd â'u rheoli ac adfer y sefyllfa wedyn; a
- parhau i: wella mynediad i wybodaeth i ymatebwyr; hyrwyddo'r broses o rannu a defnyddio arfer da a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gyflawni deddfwriaeth argyfyngau sifil posibl; a threfnu a chydgyssylltu hyfforddiant, ymarferion ac ymchwil.”³⁴

Rydym yn argymhell bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn sicrhau bod holl ymatebwyr Categori Un yn gyson yn y modd y maent yn rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith a bod eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i graffu arno'n rheolaidd.

³³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 52

³⁴ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Argymhelliad 1

2. Cynllunio at Argyfwng

Ariannu ar gyfer argyfyngau sifil a chynllunio ar gyfer argyfyngau

42. Pan holwyd Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau ariannu, dywedwyd wrthym:

“When we moved away from the civil defence grant, there was a transfer from the UK Government to the Welsh Government, through a Barnett formula transfer, so that moneys could be placed in Wales in the same way as they were placed in England in the revenue support grant, so that local authorities could use them as part of the totality of their spending to meet civil contingency responsibilities.”³⁵

43. Aeth Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud:

“While there is a relationship between the local risk assessment and the plans that are in place, the money is to support planning arrangements rather than to support a particular response to a particular risk.

“[...] so, one would not know where to put specific money in advance to respond to a particular incident that was going to occur.”³⁶

44. Dywedwyd wrthym fod Adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn darparu trefniadau ar gyfer cymorth ariannol brys i awdurdodau lleol ar gyfer effeithiau uniongyrchol digwyddiad a bod gan Lywodraeth Cymru ‘Gynllun Cymorth Ariannol Brys’ at ei defnydd.

45. Fodd bynnag, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gall awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy’n ymateb i argyfyngau ddarganfod bod eu dyraniadau cyllideb ar gyfer argyfyngau sifil a chynllunio ar gyfer argyfyngau wedi’u gwario mewn achos o ddigwyddiad mawr.³⁷

46. Roeddem yn arbennig o bryderus am y sefyllfa a ddigwyddodd y mis Mehefin 2011 pan wnaeth tân mewn warws dears yn Abertawe ei gwneud yn orfodol i symud a chael gwared ar wastraff teiars, a

³⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 173

³⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 175

³⁷ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 2.9

chostiodd hyn oddeutu £1.5 miliwn i'r awdurdod lleol ac i'r gwasanaethau brys.³⁸

47. Fodd bynnag, nododd gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Llywodraeth Cymru:

"In 2011, Welsh Government provided a grant of £1 million to Swansea City Council as a contribution towards expenditure incurred in dealing with the recovery phase following a major fire incident at Fforestfach. The funding provided recognised the exceptional circumstances of the incident and the significant costs borne by the authority and its partners in dealing with the fire and its aftermath."³⁹

48. Rydym yn nodi y byddai hyn wedi gadael cost net o tua £0.5 miliwn.

49. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell:

"[...] y dylai ymatebwyr Categori Un ystyried tebygolrwydd a chanlyniadau posibl risgiau a wynebwr yn eu hardaloedd wrth flaenoriaethu'r defnydd o adnoddau ar gyfer cynllunio at argyfwng."⁴⁰

50. Rydym yn cytuno â chanfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gall costau sylweddol na ellir eu cynllunio godi pan fydd awdurdod lleol yn rheoli digwyddiad brys, er mai'r prif faes gwariant yw costau staff y gellir ei ragfynegi.

51. Credwn hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn mynd i fod yn fwy agored i rai risgiau nag eraill a bod angen i awdurdodau lleol ddefnyddio dulliau cywir o asesu risg wrth gynllunio ar gyfer risgiau o'r fath.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllidebau cynllunio at argyfyngau sifil yn unol â risgiau cysylltiedig.

³⁸ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 2.9

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol - Llywodraeth Cymru - 4 Mawrth 2013

⁴⁰ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Argymhelliad 6

Datganoli cyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer argyfyngau i'r rhanbarthau

52. Mae adolygiad Simpson o ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, yn cynnwys adran ar argyfyngau sifil. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oes dosbarthiad digon teg o swyddogaethau cynllunio at argyfwng rhwng nifer o sefydliadau ac y dylid ailstrwythuro hyn i lefel ranbarthol. Byddai'r ad-drefnu hwn hefyd yn cynnwys awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub.

53. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y strwythur presennol o dimau bach yn cynllunio at argyfwng yn arwain at aneffeithlonrwydd. Wrth wneud sylwadau ar y symudiad tuag at ddatganoli cyfrifoldeb am gynllunio at argyfwng i'r rhanbarthau, nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol:

"Gallai'r penderfyniad i symud at fframwaith traws-sector, rhanbarthol ar gyfer cynllunio at argyfwng wneud trefniadau cydnerthedd yng Nghymru yn fwy effeithlon ac effeithiol.

"Mae symud i waith traws-sector, rhanbarthol hefyd yn cynnig y cyfle i ymatebwyr Categori Un roi trefniadau cadarn a thryloyw ar waith ym maes llywodraethu ac atebolrwydd."⁴¹

54. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd "Mae risgiau sylweddol a rhwystrau diwylliannol i'w goresgyn wrth resymoli trefniadau cynllunio at argyfwng."⁴² Mae'r rhwystrau posibl hyn yn cynnwys cynnal atebolrwydd corfforaethol ymatebwyr Categori Un unigol; safoni arferion lle mae hynny'n angenrheidiol; cynnal cydberthnasau lleol; osgoi agwedd 'un ateb i bawb'; darparu mwy o le ar gyfer timau rhanbarthol sy'n cynllunio ar gyfer argyfyngau; alinio ffiniau daearyddol sefydliadau; a gwneud lle i wahanol ddiwylliannau a gwahanol delerau ac amodau gwaith.

55. Wrth holi ynghylch awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r canllawiau presennol ar gynllunio ar gyfer argyfyngau a'r gofyniad i hyrwyddo gwaith craffu effeithiol gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol, awgrymodd Gavin Macho o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oedd pawb a oedd yn gweithio o fewn adrannau cynllunio at argyfwng

⁴¹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 1.38

⁴² Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 1.43

wedi'u hargyhoeddi o'r angen am newid a gafodd ei argymhell gan adolygiad Simpson. Dywedodd hefyd:

"All of our plans are scrutinised locally by our risk officers and all sorts of different people to see that we are capable of responding. So, to me, it is not a huge issue. In the report, it is captured as this big issue, but I talk to all my colleagues across the country, and one of our disappointments in all of this is that there is this perception that there is a big vacuum where there are all these problems. It started off in Simpson, which said that there was an urgent need to look at emergency planning. We all asked, 'Why?' and there was no evidence. We were never presented with any evidence. We then get the Wales Audit Office report, which again suggests that there is this big vacuum and a problem."⁴³

56. Fodd bynnag, nodwyd o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys fod nod i gael cysondeb a pharhad yn yr agwedd ar draws y pedwar Fforwm Cymru Gydnerth Lleol. Nododd yr Uwcharolygydd Claire Parmenter:

"Granted, one size does not fit all, so that what suits Dyfed-Powys, for example, geographically may not suit north Wales. South Wales and Gwent work very closely together, because of their proximity. So, they are able to share work groups. We have tried to create mechanisms for the four LRF co-ordinators in Wales to share, to work together through the LRF co-ordinators' forum so that we are not doing things x4."⁴⁴

57. Pan holwyd Llywodraeth Cymru ynghylch awdurdodau lleol yn derbyn yr agenda am ddatganoli cyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer argyfwng i'r rhanbarthau, nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar gompact llywodraeth leol, a fyddai'n cael gafael ar adnoddau ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel leol. Clywsom y byddai pob Fforwm Cymru Gydnerth Lleol yn gyfrifol am sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i werthuso cydweithio ac i asesu meysydd ar gyfer gwella. Byddai pob Fforwm Cymru Gydnerth Lleol wedyn yn paratoi achos busnes yn nodi

⁴³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 276

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 302

amrywiaeth o opsiynau i ddarparu trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil.⁴⁵

58. Cawsom sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai costau tebygol, manteision ac unrhyw risgiau posibl o symud tuag at system o ddatganoli cyfrifoldeb i ranbarthau, yn cael eu cynnwys yn yr Achosion Busnes unigol. Byddai'r materion hyn yn cael eu holrhain yn ystod y cyfnod o roi'r cynlluniau ar waith.⁴⁶

59. Pan ofynnwyd i St John Cymru a oedd ganddynt bryderon ynghylch symud tuag at ddatganoli, dywedwyd wrthym:

"I would say that, at a local authority level, there is a good working relationship [...] When you get to the regional level, I think that it is a bit less clear because of the way the local resilience fora are set up with an array of sub groups...It is up to us as a group to ensure that we do more on a regional basis. At present, we are operating on a local basis. If it develops into a regional system, we have to ensure that we work more on a regional basis."⁴⁷

60. Nodwyd o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"[...] the Compact commitment on emergency planning recognises that regional collaboration and multi-agency work is already integral to the way in which this service is delivered, but it also acknowledges that there is scope for making this collaboration more cohesive, effective and efficient."⁴⁸

61. Nodwyd hefyd o'u dystiolaeth ysgrifenedig fod pedwar fforwm Cymru Gydnerth Lleol wedi sefydlu gweithgorau i ystyried datganoli cyfrifoldeb, gan ddefnyddio'r ffiniau rhanbarthol sy'n bodoli ar gyfer pob fforwm fel y model cydweithio.

Rydym yn argymhell y dylai symud at bedwar model rhanbarthol gwahanol ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gymuned gydnerth oresgyn nifer o heriau, yn cynnwys rhwystrau diwylliannol.

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 134 i 136

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 154

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 138

⁴⁸ PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Tudalen 4

Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet

62. Mae Swyddfa'r Cabinet yn disgwyl i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau ddefnyddio'u Set Disgwyliadau i'w cynorthwyo i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain. Mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet hefyd yn nodi y dylai ymatebwyr Categori Un, fel aelodau o fforwm Cymru Gydnerth Lleol, gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain.⁴⁹

63. Fodd bynnag, pan holwyd Christina Scott o Swyddfa'r Cabinet am werth y set disgwyliadau fel cymorth i asesu eu heffeithiolrwydd, dywedodd:

“The thing that I care that they know about is ‘Emergency Preparedness’, which is the statutory guidance, and ‘Emergency Response and Recovery’, which is the non-statutory guidance. Those are the two key documents that support the Act from my perspective. I would be very surprised if any emergency planner in Wales did not have copies of those on his or her desk.”⁵⁰

64. Yn ei adroddiad, canfu'r Archwilydd Cyffredinol mai ychydig iawn oedd yn defnyddio'r set disgwyliadau, gyda rhai ymatebwyr ddim yn adnabod y ddogfen neu ddim o'r fan bod hunanasesiad yn rhan o'u cylch gwaith.⁵¹

65. Pan holwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch pa mor berthnasol oedd y set disgwyliadau, dywedodd ei fod yn:

“[...] a guidance document, not a statutory piece of guidance. It is a guidance document, giving guidance as to how you interpret what is statutory. The Act is the statutory piece, the document on dealing with emergencies is the guidance to the Act, and this is a document that tells you how you might want to write plans.”⁵²

66. Nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn synnu nad oedd swyddogion cynllunio at argyfwng yn ymwybodol o'r set disgwyliadau. Fodd bynnag, clywsom fod y set disgwyliadau yn ddogfen fawr a gyhoeddwyd beth amser yn ôl a'i bod:

⁴⁹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 35

⁵⁰ Swyddfa Archwilio Cymru, Argyfyngau Sifil yng Nghymru, Rhagfyr 2012, Para 86

⁵¹ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 35

⁵² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 272

“[...] not the sort of thing that you would refer to on a daily basis; it is the sort of thing that you might have regard to when you are going into an exercise to refresh your plans.”⁵³

67. Nodwyd o’r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn cydnabod fod angen cymryd camau i sicrhau bod swyddogion cynllunio at argyfwng yn hollol ymwybodol o’r set disgwyliadau. Nododd June Milligan:

“[...] we (the Welsh Government) will take further effort to make the expectation set known, so that there would not be anybody involved in emergency planning who would be unaware of its existence. It is a tool that has been provided and therefore should be used.”⁵⁴

Hyfforddi staff cydnerthu

68. Clywodd y Pwyllgor fod amrywiaeth o wahanol ymarferion hyfforddi sy’n cael eu cynnal ar lefel y DU oddeutu dwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys yr ymarfer ‘Watermark’ sy’n cael ei gynnal ledled y DU sy’n cynnwys 15,000 o bobl o bob lefel o’r Llywodraeth o Whitehall i’r rheini ar lefel leol. Mae’r ymarfer yn profi sut mae’r gwahanol haenau o lywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth â’i gilydd. Clywsom fod ymarfer achub o’r dŵr wedi’i gynnal ar Lyn Tegid fel rhan o’r ymarfer cenedlaethol hwn. Yn fuan wedi’r ymarfer hwn, ymatebodd yr un swyddogion brys i argyfyngau gwirioneddol a achoswyd gan y llifogydd yng Ngheredigion. Nododd Llywodraeth Cymru:

“One of the key learning and development opportunities that we are putting in place now is Ymarfer Aur Cymru, or exercise Wales Gold, where we are training strategic-level people for various scenarios in which they might find themselves in reality.”⁵⁵

69. Nodwyd o dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru:

“Joint working between the Welsh Government, WRPT, JESG, Welsh Local Government Association and the LRFs has seen the

⁵³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 73

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 103

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 83

development of a national programme of strategic training which will commence later this month. Similar collaboration took place on the development of strategic co-ordination centres in Wales.”⁵⁶

70. Pan holwyd sut y caiff hyfforddiant ei ariannu, clywsom fod agwedd aml-asiantaeth tuag at ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddiant brys er mwyn sicrhau bod rhaglen hyfforddi aml-asiantaeth ar waith. Nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn gwella o ran darparu hyfforddiant ac roedd yn ei wneud yn fwy cost-effeithiol. Nododd y Pennaeth Argyfyngau yn Llywodraeth Cymru:

“The Wales Gold exercise was considerably more expensive when we had to have the National Policing Improvement Agency to deliver it. What we are trying to do is deliver it ourselves, in a package that is tailored to each area of Wales [...] which means that the money that we have goes much further.”⁵⁷

71. Nododd Llywodraeth Cymru fod cyllideb flynyddol ar waith ar gyfer hyfforddiant ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Nododd:

“There is £50,000 available, of which the Welsh Government provides £20,000. The joint emergency support group provides £20,000 and the WLGA provides £10,000. That is then taken together into one fund, so that everyone can benefit from it.”⁵⁸

72. Clywsom fod hyn yn ychwanegol at gyllidebau hyfforddi a ddyrannwyd gan Fforymau Cymru Gydnerth lleol.⁵⁹

73. Ychwanegodd yr Uwcharolygydd Claire Parmenter ei bod wedi sylwi ar fanteision enfawr o gaffael hyfforddiant, a gweithgareddau dysgu a datblygu, ar sail Cymru gyfan. Nododd:

“By procuring on a pan-Wales basis, we were able to make it fit-for-purpose and achieve significant cost efficiencies as well.”⁶⁰

⁵⁶ PAC(4) 05-13 (p1) Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru – Tudalen 2

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 94

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 90

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 90

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 321

74. Mae'n bleser gennym nodi bod y gymuned gyd-nerthu yng Nghymru yn ymgymryd â hyfforddiant trylwyr er mwyn sicrhau y gall ymateb yn effeithiol i argyfyngau. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol nad yw rhai ymatebwyr yn cymryd cyfrifoldeb llawn am asesu eu perfformiad eu hunain drwy ddilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Set Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau pa mor bwysig yw hunan-asesu cywir, yn enwedig pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau Set Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet.

Rydym yn argymhell bod cyngor ar sut i ddefnyddio'r Set Disgwyliadau yn effeithiol yn elfen allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i swyddogion cydnerthu yn y dyfodol a bod y defnydd ohono'n cael ei brofi'n rheolaidd fel rhan o ymarferion ar gyfer argyfyngau sifil.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu cyfres o gymwyseddau ar gyfer swyddogion cydnerthu. Dylid rhoi'r cymwyseddau hyn ar waith yn gyson ledled Cymru.

Defnyddio technoleg i gefnogi dulliau rhannu gwybodaeth

75. Clywsom gan y tystion i gyd fod effeithiau cadarnhaol a negyddol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn ystod argyfwng a bod rheoli gwybodaeth a gwybodaeth anghywir, yn effeithiol yn hanfodol

76. Dywedwyd wrthym fod y digwyddiad yng Nglofa'r Gleision wedi cynnig heriau arbennig, lle'r oedd pobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar y safle i gyfleu gwybodaeth yn gyflym iawn. Clywsom fod y digwyddiad wedi codi pryderon am effaith y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, yn ymwneud yn benodol â rhagdybiaethau pobl y byddai adnoddau'n cyrraedd y safle a phobl yn adnabod teuluoedd a oedd yn mynd i ganolfannau ar gyfer teuluoedd. Clywsom fod y wybodaeth anghywir hon wedi lledaenu'n gyflym iawn o ganlyniad i natur ddiymdroi'r cyfryngau cymdeithasol. Nododd Llywodraeth Cymru, yn ystod digwyddiad Glofa'r Gleision:

“[...] those who were leading on the ground were finding that information was being circulated ahead of the arrangements they had in place to deal with it.”⁶¹

77. Nododd Swyddfa'r Cabinet mai'r her oedd defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwell dealltwriaeth o'r ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd, yn enwedig mewn digwyddiadau sy'n cwmpasu ardal eang. Clywsom fod Swyddfa'r Cabinet yn ystyried llawer o ddefnyddiau arloesol o'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrdd:

“[...] we have been talking to Yahoo! and Google about how you can use search items to get information about what is going on on the ground. Therefore, the number of people in an area who are searching for 'winter vomiting' gives you a sense of the number of people who are falling sick with something. How we tap into that and use that across organisations to try to source situational awareness before it starts hitting us, in the response sense, is exciting and difficult.”⁶²

78. Clywsom hefyd fod Swyddfa'r Cabinet yn treialu cynllun 'darlledu cell' sy'n anfon negeseuon rhybudd i ffônau symudol mewn ardal ddaearyddol heb i rywun orfod cofrestru. Dywedwyd y gellid defnyddio hyn, yn arbennig ar gyfer llifogydd a risgiau eraill a fyddai'n effeithio ar boblogaeth dros dro.⁶³

79. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd ei bod, mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Cabinet, yn gweithio ar fenter i drosglwyddo gwybodaeth yn electronig rhwng gwasanaethau brys. Mae hyn yn cael ei dreialu yn ardal Casnewydd ar hyn o bryd.⁶⁴

80. Clywsom hefyd fod problemau o ran ceisio cysylltu â phobl sy'n agored i niwed er mwyn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau brys, yn enwedig y rheini na allant ddianc mewn argyfwng ar eu pen eu hunain ac a all fod wedi'u caethiwo mewn cartrefi nyrsio neu yn eu tai eu hunain. Fodd bynnag, clywsom fod technoleg yn cael ei ddefnyddio i leihau'r risgiau hyn. Nododd Cydgysylltydd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd fod ymarfer mapio'n cael ei gynnal yn ardal Bae Cinmel lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth ar incwm isel ac yn oedrannus. Nododd:

⁶¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 195

⁶² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 199

⁶³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 209

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 207

“In terms of addressing the evacuation and shelter requirements of people in that area, we would be able to map out who would need our help quickly through the use of what used to be called flood wardens [...] and they would be familiar with the local community and would quickly know who in that area might need assistance or help. It is about going back to basics and to knowing who your next-door neighbour is. That is the message that we try to get over when we go into colleges and schools as well—certainly to the young people. We tell them, ‘Don’t disrespect the elderly and don’t disrespect disabled people; they may be the ones who will need your help.’”

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru’n gweithio’n agos â’r gymuned cydnerthu leol i gasglu’r arfer gorau o ran rheoli’n effeithiol oblygiadau rhwydweithiau cymdeithasol yn ystod digwyddiadau brys a sicrhau ei fod yn cael ei rannu ymhlith y fforymau lleol Cymru Gydnerth.

3. Rôl y sector gwirfoddol ac ymgysylltiad y gymuned ehangach

Cymryd rhan mewn cynllunio at argyfwng ac ymateb i argyfyngau

81. Yn ei adroddiad, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad:

“Nid yw ymatebwyr Categori Un yn gyson o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau a gynigir gan y sector gwirfoddol i feithrin cydnerthedd ac ymateb i argyfyngau.”⁶⁵

82. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod cynrychiolaeth y sector gwirfoddol ar y fframwaith cydnerthu yng Nghymru wedi'i gyfyngu'n gyffredinol i'r lefel leol ac nad oes cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol ar y Fforwm Cymru Gydnerth bellach oherwydd cafwyd anhawster i sicrhau cynrychiolaeth genedlaethol.

83. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at bartneriaeth rhwng y Fforwm Cymru Gydnerth Lleol a'r sector gwirfoddol yn Swydd Lincoln, lle mae memorandwm dealltwriaeth rhwng y ddau wedi sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'u swyddogaethau a mwy o bwerau i'r sector gwirfoddol.⁶⁶

84. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, nododd Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd:

“[...] to optimise the skill set within all sectors of the resilience community, it should be extensively encouraged for Category 2 or Voluntary Sector personnel to take on this role. This would also further widen the skill set and pool of staff. This I feel requires further promotion within Wales to recognise the valuable contribution from Category 2 and Voluntary Sector partners.”⁶⁷

85. Pan holwyd St John Cymru am gynrychiolaeth bosibl y sector gwirfoddol ar y Fforwm Cymru Gydnerth, awgrymodd gynrychiolaeth y gellid ei chyfnewid ar is-grwpiau. Nododd Cyfarwyddwr Gweithrediadau St John Cymru:

⁶⁵ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 2.32

⁶⁶ Swyddfa Archwilio Cymru - Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Rhagfyr 2012, Para 2.34

⁶⁷ PAC(4) 05-13 (p5) – Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd – Tudalen 2

“[...] it could be a changeable thing, with a period of so long for St John Cymru Wales, then for the Red Cross, and then for WRVS.”

86. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarparwyd gan Swyddfa'r Cabinet:

“Emergency Preparedness, the statutory guidance supporting the Act, is clear that the governance of the Local Resilience Forum (LRF) and the membership of its groups and sub-groups is a matter for agreement by the Chief Officer Group of the forum and Regulation 4(4) states that cooperation “shall take such form as may be agreed between the relevant responders”. Indeed, the regulations were amended in April 2012 to enable a greater degree of flexibility in the ways in which responders might work together to ensure that Category 2 responders, in particular, were able to fulfil their duties in the most efficient and effective way...Members of the LRF can agree their own means of facilitating communication at the right level.”⁶⁸

87. Rydym yn cytuno y dylai'r sector gwirfoddol chwarae mwy o ran mewn cynllunio at argyfwng. Dylai hefyd gael cynrychiolaeth ar y fforymau angenrheidiol er mwyn cyfrannu'n effeithiol.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cynrychiolaeth cyrff y sector gwirfoddol ar Fforwm Cymru Gydnerth. Hefyd dylai'r rheini sy'n cynrychioli cyrff gwirfoddol allu hawlio treuliau mewn perthynas â'r ffaith eu bod yn cymryd rhan yn y fforwm.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw rwystrau i atal aelodau o gyrff y sector gwirfoddol rhag cadeirio cyfarfodydd gweithgorau cynllunio at argyfwng.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu memorandwm dealltwriaeth rhwng fforymau lleol Cymru Gydnerth a'r sector gwirfoddol o ran ymateb i argyfyngau sifil.

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol - Swyddfa'r Cabinet.

Trefniadau ariannu ar gyfer y sector gwirfoddol

88. Drwy gydol ein sesiwn casglu tystiolaeth gyda St John Cymru, roeddem yn pryderu am honiadau y gall rhai gwirfoddolwyr ddioddef yn ariannol drwy gymryd rhan mewn ymarferion hyfforddi, ymarferion ar gyfer digwyddiadau mawr, ac wrth ymateb i ddigwyddiadau brys. Er bod gennym gydymdeimlad â gwirfoddolwyr unigol o'r fath, ein pryder mwyaf oedd na fyddai sefydliadau gwirfoddol yn cymryd rhan yn y modd llawnaf bosibl mewn ymarferion hyfforddi, ac felly gallai hyn, o bosibl, effeithio ar ddulliau cynllunio Cymru. Nododd St John Cymru:

"We are not saying that we would not participate because of lack of funding. We are a charity and we are involved in covering public events across Wales, so the only time we would probably not participate in an exercise would be if, as an organisation, we did not have the capacity to do so. On funding, people just need to be made aware that, if you are involving the voluntary sector, it should not be out of pocket as a result of being involved in the exercises."⁶⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynghori ymatebwyr Categori Un i sicrhau bod unrhyw gostau rhesymol a ysgwyddir gan gyrff y sector gwirfoddol yn ystod ymarferion hyfforddi yn cael eu had-dalu.

Ymgysylltu â'r Gymuned yn ehangach

89. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw rhai cofrestrau risg cymunedol yn rhoi mynediad rhwydd i'r cyhoedd at wybodaeth am yr amrediad llawn o ganlyniadau risgiau a all effeithio arnynt. Roedd yr adroddiad yn argymhell:

"[...] y dylai ymatebwyr Categori Un, drwy eu fforymau lleol Cymru gydnerth, sicrhau bod eu cofrestrau risg gymunedol yn nodi'n glir holl ganlyniadau pob un o'r risgiau a nodwyd. Yn arbennig, dylai cofrestrau risg cymunedol:

- fod yn seiliedig ar ganllawiau ac arfer da;
- fod yn hawdd eu deall; a

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 366

- rhoi cyngor syml ar y camau y gall y cyhoedd eu cymryd i amddiffyn eu hunain.

90. Pan holwyd Anne Evans o Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd am gysylltu â'r sector preifat, nododd fod hwn yn ddarn o waith sy'n tyfu, yn enwedig mewn perthynas â chysylltu â pharciau carafanau ynglŷn â'r llifogydd diweddar:

"There are huge caravan parks and camping grounds in north Wales, and there is a sub-group of the Wales flood group that looks specifically at caravan and camping facilities and at the risks involved there. It is that balancing act between owners not wanting to denigrate their business and making people aware of the risk in that area, but not to the point where they do not want to come to that particular site because it could be a flood risk...It is about getting the message over to the caravan park and campsite owners that it will not be detrimental to their business if they recognise the risks and look to have some plans in place."⁷⁰

91. Rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn argymhell y dylai pob cofrestr risg gymunedol fod yn hawdd cael mynediad ati. Hefyd, dylai cwmnïau'r sector preifat, yn enwedig y rheini a allai fod mewn categori risg uchel, fod yn fwy ymwybodol o'r gofrestr a'i phwysigrwydd.

92. Credwn nad cyfrifoldeb y gwasanaethau brys yn unig yw ymdrin yn effeithiol â sefyllfaoedd brys. Dylai'r gymuned yn ehangach rannu rhywfaint o'r cyfrifoldeb. Mae angen i'r rheini ar bob lefel o'r gymuned gydnerthu sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u rôl o ran paratoi ar gyfer argyfyngau sifil ac ymateb iddynt.

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2013, Para 356 a 358

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn -

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?lId=1311

18 Chwefror 2013

Dr June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau	Llywodraeth Cymru
Dr Wyn Price, Pennaeth Argyfyngau	Llywodraeth Cymru
Alyson Francis, Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol	Llywodraeth Cymru
Christina Scott, Cyfarwyddwr, Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil	Swyddfa'r Cabinet
Gavin Macho, Rheolwr Cynllunio at Argyfyngau, Cyngor Sir Caerdydd	Welsh Local Government Association
Simon Wilkinson, Swyddog Polisi Gwasanaethau Rheoliadol	Welsh Local Government Association
Anne Evans, Cydgysylltydd Cymru Gydnerth Lleol	Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd
Uwcharolygydd Claire Parmenter, Cydgysylltydd Argyfyngau Sifil Gwasanaethau Brys Cymru	Cyd-grŵp y Gwasanaethau Brys
Rhodri Jones, Cynghorydd Gweithrediadau	St John Cymru
James Shaughnessy, Cyfarwyddwr Gweithrediadau	St John Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. All written evidence can be viewed in full at

www.senedd.cynulliadcymru.org/ielssueDetails.aspx?Ild=5270&Opt=3

Sefydliad:

Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet
Welsh Local Government Association
Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd
Cyd-grŵp y Gwasanaethau Brys
St John Cymru

Cyfeirnod

PAC(4) 05-13 – Papur 1
PAC(4) 05-13 – Papur 2
PAC(4) 05-13 – Papur 3
PAC(4) 05-13 – Papur 4
PAC(4) 05-13 – Papur 5

Llywodraeth Cymru:
Swyddfa'r Cabinet

Gwybodaeth ychwanegol
Gwybodaeth ychwanegol